Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

**Embargo: 10.00 22 Mai 2015**

# Y Bwrdd yn herio'r pleidiau a'r cyhoedd i ddewis ymgeiswyr o safon uchel ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae Bwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi ei benderfyniad terfynol ar y taliadau a'r cymorth ariannol y bydd Aelodau'r Pumed Cynulliad yn eu derbyn, ac wedi cyhoeddi adroddiad manwl sy'n egluro'i ystyriaethau.

Mae'n amlinellu cyflogau a lefel y cymorth ariannol a fydd ar gael i bob Aelod i gyflawni ei rôl fel Aelod Cynulliad ar ôl yr etholiad yn 2016.

“Mae ein Penderfyniad yn adlewyrchu'r ffaith y bydd y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl etholiad 2016, yn sefydliad tra gwahanol ac y bydd ganddo fwy o rym na phan y'i sefydlwyd yn wreiddiol. Bydd ganddo bwerau deddfu, pennu trethi a benthyca fel y rhai sydd gan Senedd y DU a Senedd yr Alban. Credaf fod y gwaith y mae'r Bwrdd wedi ei wneud wedi arwain at greu cyfundrefn tâl sy'n briodol ar gyfer y sefydliad, ac ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol sydd i ddod," meddai Sandy Blair, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau.

"Ein dyletswydd yw sicrhau bod cefnogaeth ariannol ar gael i ddenu'r bobl orau i gynnig eu hunain ar gyfer rôl Aelod Cynulliad a bod cymorth ar gael a fydd yn galluogi Aelodau etholedig i gyflawni eu rôl orau y gallan nhw wrth graffu ar ddeddfwriaeth a Llywodraeth Cymru. Lle rydym wedi dod o hyd i bethau sy'n rhwystro pobl rhag sefyll mewn etholiad, rydym wedi ceisio mynd i'r afael â hwy.

“Rydym wedi gwneud ein rhan trwy gyflwyno Penderfyniad sydd, yn ein barn ni, yn fuddsoddiad mewn democratiaeth yng Nghymru – yng ngallu ac ansawdd y Cynulliad, fel y gall wneud y gwaith y mae i fod i'w wneud wrth i ragor o bwerau gael eu datganoli.”

"Mae her nawr yn wynebu'r pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yng Nghymru i sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir yn cael eu hethol a all gyflawni'r addewid y mae'r pwerau ychwanegol hyn yn ei gynnig."

Mae'r Penderfyniad yn cynnwys cynnydd yng nghyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad newydd. O fis Mai 2016, £64,000 fydd y cyflog. Ar yr un pryd, bydd y newidiadau a wna'r Bwrdd i gynllun pensiwn yr Aelodau yn lleihau cyfraniad y trethdalwyr, gyda'r Aelodau'n cyfrannu mwy.

Ychwanegodd Mr Blair: "Mae rhai o benderfyniadau'r Bwrdd wedi eu beirniadu gan y cyhoedd a'r Aelodau. Mae eraill wedi cael derbyniad da. Mae'r Bwrdd wedi gwrando ar yr adborth - cadarnhaol a negyddol - ac wedi'i ystyried yn ei drafodaethau.

"Mae gwaith ymchwil y Bwrdd yn dangos yn glir fod y swydd o fod yn Aelod Cynulliad wedi newid yn sylweddol ers 2010, pan gafodd y cyflog ei adolygu ddiwethaf. Rydym wedi pennu tâl ar lefel sy'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau fydd gan yr Aelodau."

Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r Bwrdd hefyd wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff cymorth ariannol ei ddarparu i grwpiau plaid o'i gymharu â'r system ar hyn o bryd. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y cyfanswm sydd yn cael ei wario ar bob plaid yn y Cynulliad yn aros yn gyson hyd yn oed os bydd mwy na phedair plaid yn y Cynulliad nesaf. Gyda dim ond 60 Aelod yn y Cynulliad, mae cyfraniad pob un yn hanfodol.

Ychwanegodd Mr Blair: "Mae grwpiau plaid yn hanfodol i weithrediad effeithiol y Cynulliad. Yn hyn o beth, mae ein penderfyniad wedi ei seilio ar yr egwyddor o symud adnoddau i grwpiau'r gwrthbleidiau er mwyn annog craffu dwysach ar Lywodraeth Cymru.

"Mae rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru yn golygu bod angen mwy o graffu. Dyna pam ein bod wedi cynnwys cymorth ychwanegol newydd ar gyfer unigolion nad ydynt mewn grwpiau, i sicrhau y gall pob Aelodau gyfrannu."

## *Nodiadau*

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11701

Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y bydd tri phenderfyniad yn cael eu hadolygu ym mis Ionawr 2016: cyfraddau costau swyddfa a chostau preswyl, yn ogystal â bandiau cyflog Staff Cymorth.

Mae cyfanswm cost y penderfyniad wedi cynyddu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, a £13.5 miliwn oedd y gost yn 2014/15. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrif uchaf o £14.9 miliwn ar gyfer 2014/15.

Amcangyfrifir mai £14.5 miliwn fydd costau gwirioneddol 2016/17, sef blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad, (yn seiliedig ar uchafswm o £15.7 miliwn).

**Os hoffech drefnu cyfweliadau, neu gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â**

**Gareth Price, Clerc y Bwrdd, ar 029 2089 8566.**